ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Datganiad Ystadegol Cyntaf

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, mis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019

18 Mehefin 2019
SFR 44/2019

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb â mwy nag 11,000 o oedolion 16 oed a throsodd a ddewisir ar hap. Mae'r arolwg yn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion, gan holi pobl am eu profiadau a'u barn. Defnyddir rhai o'r canlyniadau i fesur y cynnydd tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.


Dim ond detholiad o'r canlyniadau a geir yn y datganiad hwn. Mae'r canlyniadau ar lawer mwy o bynciau, gan gynnwys dadansoddiadau manwl, ar gael yn ein dangosydd canlyniadau rhyngweithiol a chaiff dadansoddiadau pellach ar bynciau penodol eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn.

## Yn y datganiad hwn




- Newid hinsawdd
- Bodlonrwydd â gwasanaethau cyhoeddus
- Bodlonrwydd â gwasanaethau iechyd
- Bodlonrwydd gydag ysgolion
- Amgylcheddwyr lleol
- Ailgylchu
- Amddifadedd
- Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau
- Ymdeimlad o gymuned
- Defnyddio bagiau siopa
- Ymddygiadau ffordd o fyw




- Llesiant personol
- Cymryd rhan mewn chwaraeon a galw cudd
- Gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol
- Defnydd o'r Gymraeg
- Defnydd o'r rhyngrwyd


Mae nifer o gwestiynau a ofynnwyd mewn blynyddoedd blaenorol hefyd yn cael eu trafod yn y datganiad hwn. Ar gyfer y cwestiynau hyn, nodir unrhyw newidiadau dros amser sy'n arwyddocaol.

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn darparu'r prif ganlyniadau o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19.

Ers 2016-17, mae'r arolwg wedi disodli, ac wedi cynnwys cwestiynau o Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru ac Arolwg Oedolion Egnïol.

Gellir gweld mwy o wybodaeth am y fethodoleg, y pynciau a'r diffiniadau yn Gwybodaeth allweddol am ansawdd.

Mae'r holiadur llawn a chanllawiau holiadur yn rhoi rhagor o gyd-destun amdano pam rydym yn gofyn y cwestiynau hyn. Mae gwybodaeth gefndir ar gael ar dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol.

Ystadegydd: Siobhan Evans ~ 0300 025 6685 arolygon@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd : 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

Pam rydym yn gofyn y cwestiynau hyn (Saesneg yn unig)

## Newid hinsawdd



Yn Ebrill 2019, fe ddatganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd. Cafodd pob cyfweliad yr Arolwg Cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn y canlyniadau hyn eu casglu cyn y datganiad hwnnw.

Gofynnwyd i bobl am eu barn ynghylch a newid hinsawdd. Roedd **93%** o bobl yn meddwl bod **hinsawdd y byd yn newid**. O'r rhain, dywedodd **37%** eu bod yn poeni'n fawr.

O'r bobl sy'n meddwl bod hinsawdd y byd yn newid, mae **48%** yn meddwl ei fod yn cael ei achosi'n rhannol gan **brosesau naturiol** ac yn rhannol gan **weithgarwch dynol**; mae **47%** yn meddwl ei fod yn cael ei achosi'n rhannol gan **brosesau naturiol** ac yn rhannol gan **weithgarwch dynol**; ac mae **5%** o'r farn ei fod yn cael ei achosi'n bennaf gan brosesau naturiol.

Pan ofynnwyd i bobl am eu pryderon ynghylch **llifogydd** yn sgil glaw trwm, afon yn torri ei glannau neu'r môr, roedd **11%** yn poeni am y risg y bydd llifogydd yn effeithio ar eu heiddo, **28%** yn poeni am lifogydd yn effeithio ar eu hardal leol, ac **62%** yn poeni am y risg o lifogydd mewn rhannau eraill o Gymru. Gallwch hefyd ddarganfod canlyniadau pellach ar yr **amgylcheddwyr lleol**, **ailgylchu** ac **ailddefnyddio bagiau siopa** yn yr adroddiad hwn.

## Bodlonrwydd â gwasanaethau cyhoeddus

Gofynnwyd i bobl roi sgôr i wasanaethau iechyd a'r system addysg ar raddfa o 0 (arbennig o wael) i 10 (arbennig o dda). Gofynnwyd i bobl roi sgôr i ddangos pa mor fodlon ydynt ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith, o 0 (ddim yn fodlon o gwbl) i 10 (cwbl fodlon). Y sgôr gyfartalog a roddwyd **allan o 10** oedd:

**6.3** ar gyfer **iechyd**, **6.6** ar gyfer **addysg**, a **5.4** ar gyfer **Llywodraeth Cymru**


Gofynnwyd y cwestiynau hyn yn yr arolwg ers 2012-13 gyda rhai amrywiadau cyfyngedig yn y canlyniadau dros y blynyddoedd. Ar **6.6**, fe ddychwelodd sgôr cyfartalog ar gyfer addysg i lefelau 2014-15 ar ôl gostyngiad yn 2016-17 a 2017-18.

## Bodlonrwydd â gwasanaethau iechyd

Gofynnwyd i bobl â phrofiad diweddar o ddefnyddio **gwasanaethau iechyd** am eu bodlonrwydd â'r gwasanaethau hyn.



Roedd **93%** yn fodlon ar y gofal a gawsant gan eu **meddyg teulu**.



Roedd **93%** yn fodlon ar y gofal a gawsant yn eu hapwyntiad **ysbyty** GIG diwethaf.

Roedd y bodlonrwydd â'r gofal a gafwyd yn yr ysbyty yn debyg ymhlith pob grŵp oedran, ond roedd bodlonrwydd â'r gofal a gafwyd gan feddygon teulu yn is ymhlith pobl iau: Roedd **88%** o bobl 16-24 oed yn fodlon, o gymharu â **94%** o'r rhai dros 75 oed.


Dywedodd **40%** o bobl eu bod yn ei chael hi'n **anodd** trefnu **apwyntiad cyfleus** ym meddygfa'u **meddyg teulu.**

## Bodlonrwydd ag addysg

Gofynnwyd i rieni plant oed ysgol am eu bodlc plentyn.



Roedd **90%** yn fodlon ar **ysgol gynradd eu plentyn**.




Roedd **81%** yn fodlon ar **ysgol uwchradd eu plentyn**.

Ar y cyfan, roedd rhieni yn fwy bodlon ar ysgolion cynradd nag ysgolion uwchradd.

| Rhieni yn cytuno fod ….. | Ysgol Gynradd | Ysgol Uwchradd |
|---|---|---|
| ... eu plentyn yn **hapus yn yr ysgol** | **94%** | **80%** |
| … yr ysgol yn **paratoi** eu plentyn yn dda ar gyfer eu **cam nesaf o addysg** | **89%** | **76%** |
| … yr ysgol yn **annog** eu plentyn i gyflawni eu **potensial yn llawn** | **89%** | **78%** |
| … yr ysgol yn **helpu** eu plentyn i ddatblygu i fod yn unigolyn **cyflawn** | **94%** | **80%** |
| … **safon yr addysgu** yn ysgol eu plentyn yn uchel | **89%** | **76%** |

## Amgylcheddwyr lleol


Cyflwynwyd cyfres o gwestiynau am faint y mae pobl yn **gwerthfawrogi eu hamgylchedd lleol** yn 2018-19. Wrth ateb, dywedwyd wrth ymatebwyr am ystyried eu hardal leol fel unrhyw le o fewn **pellter cerdded o 15-20 munud o'u cartref**.

Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol am ardaloedd o **ofod gwyrdd**, heblaw am eu gerddi eu hunain, yn yr ardal leol. Roedd mannau gwyrdd yn cynnwys mannau cyhoeddus neu agored fel parciau, rhandiroedd, ardaloedd chwarae plant, coedwigoedd, a llwybrau glan afon neu draethau.

Roedd **84%** yn fodlon ar ansawdd eu man gwyrdd lleol ac roedd **79%** yn cytuno ei fod yn cael ei gadw'n dda. Teimlai **91%** yn **ddiogel yn cerdded ar eu pen eu hunain** yn eu man gwyrdd lleol ac roedd **78%** yn cytuno bod y man gwyrdd yn **addas i blant a phobl ifanc**.

Gofynnwyd i bobl sut roedd eu man gwyrdd lleol wedi newid dros y tair blynedd diwethaf: dywedodd **20%** ei fod wedi gwella, **65%** ei fod wedi aros yr un peth a **15%** ei fod wedi gwaethygu.

**Siart 1: Bodlonrwydd ag amodau yn yr ardal leol**




## Ailgylchu

Roedd **80%** o bobl yn fodlon ar y gwasanaeth **ailgylchu** a ddarperir gan eu cyngor lleol. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent o'r farn bod eu cyngor lleol yn **rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt** am ei wasanaeth casglu ailgylchu yn gyffredinol, dywedodd **71%** o bobl ei fod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio ar draws **awdurdodau lleol**: o **61%** ym Torfaen ac Sir gaerfyrddin yn cytuno eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, i **90%** yng Nghonwy.



Gofynnwyd i drigolion am **ddulliau eraill o ailgylchu,** megis ailddefnyddio, rhoi a gwerthu eitemau ail-law. Gofynnwyd iddynt a oedden nhw'n bersonol, yn ystod y 12 mis diwethaf, wedi **gwerthu neu wedi rhoi** eitemau y byddent wedi'u taflu i ffwrdd fel arall; a hefyd, a oeddent wedi **prynu neu dderbyn** eitemau ail-law neu wedi'u defnyddio.

Dywedodd **71%** o bobl eu bod wedi rhoi eitemau ail-law i siopau elusen ac roedd **46%** wedi gwerthu eitemau neu wedi'u rhoi i ffrindiau / cymdogion / teulu. Roedd **36%** o bobl wedi prynu nwyddau ail-law o siop elusen ac roedd **26%** wedi'u prynu o wefannau (e.e. Ebay a Gumtree). Nid oedd **43%** o bobl wedi **prynu na derbyn** unrhyw nwyddau neu eitemau ail-law yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Amddifadedd




Cafodd **14%** o **oedolion** yng Nghymru eu dosbarthu fel bod mewn **amddifadedd materol**[1], (hynny yw, yn methu fforddio pethau sylfaenol fel cadw'r tŷ yn gynnes). Mae amddifadedd oedolion wedi gostwng o **16%** yn 2017-18.

Mae **17%** o oedolion **nad ydynt yn bensiynwyr** a **5%** o **bensiynwyr** yn byw mewn amddifadedd materol, tra bod **6%** o rieni gyda **phlant** yn byw mewn amddifadedd materol.

Dywedodd **68%** o bobl nad oeddent yn cael **unrhyw anawsterau wrth dalu biliau ac ymrwymiadau credyd**. Mae'r gyfran hon wedi codi ers oedd y cwestiwn wedi'i gynnwys am y tro cyntaf yn 2012-13 ond mae wedi parhau'n gyson dros y tair blynedd diwethaf (Siart 2).

**Siart 2: Y gallu i dalu pob bil ac ymrwymiad credyd yn ddidrafferth, fesul blwyddyn**




Mae'r gallu i dalu biliau ac ymrwymiadau credyd hefyd yn amrywio yn ôl grwpiau oedran. Yn 2018-19, nid oedd **84%** o bobl 65 oed a throsodd yn cael unrhyw anhawster o gymharu â **58%** o'r rheini rhwng 25 a 44 oed.

Gofynnwyd cwestiynau i bobl hefyd am eu **gallu i fforddio bwyd**[2].

- Dywedodd **1%** nad ydynt yn gallu fforddio **bwyta prydau gyda chig, pysgod (neu gynhwysyn llysieuol cyfatebol)** o leiaf bob yn ail ddiwrnod.
- Dywedodd **9%** y bu o leiaf un diwrnod yn ystod y pythefnos blaenorol pan fu'n rhaid iddynt **fynd heb bryd sylweddol** oherwydd prinder arian.
- Dywedodd **3%** eu bod wedi cael bwyd o **fanc bwyd** yn y 12 mis diwethaf.

[1] Dangosydd Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 19. Ceir fwy o fanylion am sut mae amddifadedd materol yn cael ei gyfrifo yn y bwletin a gyhoeddwyd ar dlodi yn seiliedig ar ganlyniadau 2017-18.
[2] Yn 2018-19, cynhaliwyd arbrawf gan ddefnyddio'r cwestiynau hyn i weld a oedd pobl yn ateb yn wahanol os oeddent yn cael eu holi wyneb yn wyneb o gymharu ag ateb y cwestiynau eu hunain gan ddefnyddio gliniadur y cyfwelwr. Ar gyfer pob cwestiwn, dywedodd cyfran uwch o'r bobl a atebodd eu hunain eu bod yn ei chael hi'n anodd fforddio bwyd o gymharu â'r bobl a atebodd y cyfwelwr wyneb yn wyneb. Defnyddir canlyniadau hunan-lenwi yn y datganiad hwn.

Pam rydym yn gofyn y cwestiynau hyn (Saesneg yn unig)

## Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau



Gofynnwyd i bobl am y cyfleusterau a'r gwasanaethau (fel siopau, parciau, ysgolion a meddygfeydd) sydd o fewn pellter cerdded o 15 i 20 munud o'u cartrefi. Ar y cyfan, roedd **69%** yn fodlon bod **gwasanaethau a chyfleusterau da** ar gael yn eu hardal leol, ond dywedodd **3%** nad oedd **unrhyw wasanaethau na chyfleusterau** yn eu hardal.

Roedd **80%** yn fodlon ar eu gallu i gyrraedd neu ddefnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.[3]

## Ymdeimlad o gymuned

Defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at nod cenedlaethau'r Dyfodol o gyflawni 'Cymru o gymunedau cydlynus... cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a chydgysylltiedig".



Canfu'r Arolwg Cenedlaethol, pan ofynnir i bobl feddwl am eu hardal leol:

- Teimlai **72%** eu bod yn **perthyn**;
- Teimlai **76%** fod pobl o **gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda**; a
- Theimlai **76%** fod pobl yn **drin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth**.

Mae'r tri ffigur hyn yn debyg iawn i'r hyn a nodwyd pan ofynnwyd y cwestiynau hyn ddiwethaf yn 2016-17. Cytunodd **52%** o bobl â'r tri datganiad.[4] Mae'r graddau y cytunir â'r mesur cyfun hwn yn cynyddu gydag oedran.

Teimlai **97%**yn **ddiogel yn eu cartrefi** ar ôl iddi nosi, teimlai **81%** yn ddiogel wrth **gerdded ar eu pen eu hunain** mewn ardal leol ar ôl iddi nosi, teimlai **79%** yn ddiogel wrth **deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus** ar ôl iddi nosi, a theimlai **97%** yn ddiogel wrth **deithio yn y car** ar ôl iddi nosi. Teimlai **71%** yn ddiogel ym mhob un o'r pedair sefyllfa[5].


Roedd **85%** yn **fodlon ar eu hardal leol** fel lle i fyw ynddo.[6] Roedd pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy bodlon ar eu hardal leol na phobl mewn ardaloedd trefol.

## Defnyddio bagiau siopa

Cyflwynwyd cyfres newydd o gwestiynau am **fagiau siopa amldro** yn 2018-19. Dywedodd **57%** o bobl eu bod wedi **mynd i'r siop** i brynu bwyd yn ystod yr wythnos ddiwethaf a bod angen mwy na dau fag siopa llawn i ddal yr hyn a brynwyd. Dengys Siart 3 fod **63%** o bobl wedi defnyddio **bag siopa amldro plastig trwchus** ar gyfer y math hwn o daith siopa.

[3] Dangosydd llesiant cenedlaethol 24.
[4] Dangosydd lles cenedlaethol 27.
[5] Dangosydd lles cenedlaethol 25.
[6] Dangosydd lles cenedlaethol 26.


### Siart 3: Y mathau o fagiau a ddefnyddiwyd i gludo'r hyn a brynwyd adref ar ôl taith siopa fawr i brynu bwyd




**Nodyn:** Gall yr ymatebwyr rhestru mwy nag un fath o fag, felly mae'r canlyniadau yn adio fyny i fwy nag 100%.

Gofynnwyd cwestiynau ychwanegol am y mathau o fagiau roedd pobl yn eu defnyddio wrth siopa am nwyddau **heblaw bwyd** a pha un a oeddent yn ailddefnyddio'r bagiau hyn. Gofynnwyd i bawb oedd wedi defnyddio bag siopa plastig ar gyfer unrhyw fath o daith siopa sawl gwaith, ar gyfartaledd, maent yn **ailddefnydio** un o'r bagiau hyn. Dengys Siart 4 fod amlder ailddefnyddio yn amrywio yn ôl grŵp oedran; Mae **26%** o bobl **16 i 44** oed yn ailddefnyddio bag fwy na 50 o weithiau o gymharu â **40%** o bobl **65 oed a throsodd**.

### Siart 4: Pa mor aml yr ailddefnyddir bagiau siopa plastig trwchus, yn ôl grŵp oedran



## Ymddygiadau ffordd o fyw

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cwestiynau ynghylch y pum ymddygiad ffordd o fyw canlynol.[7] Nid oedd unrhyw newid sylweddol yn y canlyniadau ar gyfer unrhyw un o'r 5 ymddygiad rhwng 2016-17, 2017-18 a 2018-19.



Dywedodd **17%** o oedolion eu bod yn **smygu ar hyn o bryd**. Roedd smygu yn fwy cyffredin ymhlith a'r rheini mewn cartrefi sy'n wynebu amddifadedd materol, ac yn llai cyffredin ymhlith pobl dros 75 oed.




Gwelwyd bod **18%** yn **yfed mwy na'r canllawiau wythnosol** (yn yfed mwy na 14 o unedau bob wythnos ar gyfartaledd). Roedd yfed mwy na'r canllawiau wythnosol yn fwy cyffredin ymhlith dynion a phobl canol oed.



Roedd **24%** wedi bwyta'r hyn a argymhellir o leiaf, sef **pum dogn o ffrwythau neu lysiau,** y diwrnod blaenorol. Roedd pobl a oedd yn wynebu amddifadedd materol yn llai tebygol o wneud hyn.



Gwnaeth **53%** y swm a argymhellir, sef **150 o funudau o weithgarwch corfforol** yn yr wythnos flaenorol. Roedd dynion yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hyn na menywod. Roedd **33%** yn anweithgar yn gorfforol (wedi gwneud llai na 30 munud o weithgarwch corfforol yn yr wythnos flaenorol). Roedd lefelau o anweithgarwch ar eu huchaf ymhlith oedolion hŷn (75 oed neu drosodd.




Roedd **59% dros eu pwysau neu'n ordew**; roedd **23%** yn **ordew**. Roedd dynion yn fwy tebygol o fod dros eu pwysau neu'n ordew (66% o ddynion) na menywod (52%). Ymhlith pobl rhwng 45 a 74 oed roedd gordewdra fwyaf cyffredin.

Dywedodd **26%** o oedolion eu bod yn arfer **pedwar neu bump** o'r **ymddygiadau ffordd iach o fyw** (peidio â smygu, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau, bwyta 5 dogn o ffrwythau neu lysiau, gweithgar, pwysau iach); tra bod **10%** yn arfer **llai na dau o'r pum ymddygiad ffordd iach o fyw**.[8] Erys y canlyniadau hyn yn ddigyfnewid ers y rheini yn 2016-17 a 2017-18.

Dywedodd **72%** o oedolion eu bod **mewn iechyd da neu dda iawn**..

---

[7] 1) Peidio â smygu, 2) Peidio ag yfed mwy na'r canllawiau wythnosol 3) Bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol 4) Bod yn egnïol yn gorfforol am o leiaf 150 o funudau yn yr wythnos flaenorol, a 5) Cynnal pwysau iach.

[8] Dangosydd lles cenedlaethol 3.


Pam rydym yn gofyn y cwestiynau hyn (Saesneg yn unig)

## Llesiant personol

Er mwyn asesu **llesiant meddyliol**[9], rhoddwyd 14 o ddatganiadau i ymatebwyr, megis “rwyf wedi bod yn teimlo fy mod wedi ymlacio”, ac “Rwyf wedi bod yn meddwl yn glir”.  Gofynnwyd iddynt sgorio pa mor aml roeddent yn teimlo fel hyn ar raddfa bum pwynt, lle roedd 1 yn 'dim o gwbl' a 5 yn 'drwy'r amser'. Wedyn, cyfrifwyd sgôr gyffredinol (o 14 i 70). Y sgôr gyfartalog gyffredinol oedd **51**.

Roedd cydberthynas glir rhwng llesiant meddyliol pobl a mesurau **llesiant gwrthrychol** eraill. Dengys siart 5 yn gyffredinol, fod gan bobl a oedd yn **fodlon ar eu bywydau**, a deimlai fod y **pethau roeddent yn eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil**, ac a oedd yn **hapus** ac yn **llai gofidus** sgoriau uwch o ran iechyd meddwl.

**Siart 5: Sgôr iechyd meddwl, yn ôl llesiant gwrthrychol:**




## Cymryd rhan mewn chwaraeon a galw cudd




Er mwyn monitro faint o oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys cyfres o gwestiynau a ddewisiwyd gan Chwaraeon Cymru.

Roedd **59%** o bobl wedi cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgaredd corfforol o ryw fath yn y 4 wythnos diwethaf. Y gweithgaredd a adroddwyd fwyaf o bell ffordd oedd **cerdded mwy na 2 filltir** (**35%** o bobl), wedi'i ddilyn gan mynd i'r **gampfa neu ddosbarth ffitrwydd** (**16%**), **nofio dan do** (**11%**) a **loncian** (**10%**).

[9] Dangosydd lles cenedlaethol 29. Caiff hyn ei gyfrifo gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Edinburgh (Saesneg yn unig)

Roedd **10%** o oedolion yn **cymryd rhan** mewn gweithgaredd chwaraeon neu gorfforol **tua unwaith yr wythnos, 8% yn cymryd rhan ddwywaith yr wythnos,** ac **32% yn cymryd rhan o leiaf deirgwaith yr wythnos.**[10]

**Siart 6: Cymryd rhan mewn chwaraeon / gweithgaredd corfforol dair gwaith yr wythnos neu fwy, yn ôl oedran**




Roedd cyfran y bobl a oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith yr wythnos neu fwy yn amrywio yn ôl oedran, o **51%** o bobl 16-24 oed i **7%** o bobl 75 oed neu drosodd, fel y dangosir yn Siart 6.

Gofynnwyd i bobl hefyd a oes unrhyw chwaraeon y byddent yn hoffi ei wneud, neu i wneud mwy ohono. Dywedodd **50%** eu bod eisiau gwneud mwy o chwaraeon neu weithgareddau corfforol gyda **14%** eisiau gwneud nofio dan do a **9%** eisiau mynd i'r gampfa neu dosbarth ffitrwydd.

## Gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol



Gofynnwyd i bobl am ymweliadau â **digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol** yn y 12 mis diwethaf a hefyd a oeddent wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath yn ystod eu hamser hamdden. Gofynnwyd cwestiynau newydd yn 2018-19 er mwyn deall **beth oedd yn atal** pobl rhag mynd i ddigwyddiadau neu weithgareddau celfyddydol neu gymryd rhan ynddynt, ac er mwyn deall agweddau pobl tuag at y celfyddydau a diwylliant.

Dywedodd **78%** o bobl eu bod yn cytuno y dylai prosiectau celfyddydau a diwylliannol gael **arian cyhoeddus**, ac roedd **85%** o bobl yn cytuno bod y celfyddydau a'r diwylliant yn gwneud Cymru'n **lle gwell i fyw**. Roedd **61%** yn cytuno bod gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol yn helpu i gyfoethogi eu hansawdd bywyd.

Dywedodd **39%** fod ganddynt **lai o arian** i'w wario ar hamdden nag a oedd ganddynt flwyddyn yn ôl, tra dywedodd **46%** ei bod yn **anodd dod o hyd i'r amser** i gymryd rhan neu fynychu gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol. Dywedodd **74%** o rieni y byddent eisiau i'w **plentyn fynd** i ddigwyddiadau celfyddydol a chymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol.

[10] Dangosydd lles cenedlaethol 38.

Dywedodd **12%** o oedolion a oedd wedi ymweld ag amgueddfa, mynychu digwyddiad celfyddydol, neu wedi cymryd rhan mewn digwyddiad celfyddydol, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bod o leiaf un o'r digwyddiadau hyn yn yr **iaith Gymraeg**.

## Y Gymraeg

Y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell o wybodaeth am gyfran y bobl a all siarad Cymraeg; defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol i fonitro'r tueddiad i oedolion rhwng y Cyfrifiadau.


Yn yr Arolwg Cenedlaethol, dywedodd **18%** o oedolion 16 oed a throsodd eu bod yn gallu **siarad Cymraeg**. Dywedodd **11%** eu bod yn **gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg a'u bod yn ei siarad bob dydd**.[11]

Yn 2018-19 cyflwynwyd cyfres o gwestiynau i ofyn i bobl sy'n gweithio, a oedd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg, am eu defnydd o'r **Gymraeg yn y gweithle**. Dywedodd **72%** o'r grŵp hwn fod cydweithwyr Cymraeg eu hiaith yn y gwaith a dywedodd **60%** o'r rhain eu bod yn **siarad Cymraeg** â rhai o'r **cydweithwyr** hyn o leiaf.

Dywedodd **31%** o weithwyr fod eu cyflogwr wedi cynnig iddynt y **cyfle i ddysgu Cymraeg**.

Hefyd yn 2018-19, fe gofynnwyd cwestiynau am y tro cyntaf ynghylch **ble dysgodd pobl siarad Cymraeg**. O'r oedolion hynny a oedd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg, dywedodd **33%** eu bod wedi dysgu hyn fel **plentyn ifanc yn y cartref**, dywedodd **23%** eu bod wedi'i ddysgu'n bennaf yn yr **ysgol uwchradd** a **20%** eu bod wedi'i ddysgu yn yr **ysgol gynradd**. Dengys Siart 7 fod ychydig dros ddwy ran o dair **(68%)** o oedolion a all siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg a hefyd yn ei siarad bob dydd wedi'i dysgu gartref fel plentyn ifanc.

**Siart 7: Cyfran y rhai sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol[12] yn ôl lle y gwnaethant ddysgu siarad Cymraeg**





[11] Dangosydd lles cenedlaethol 36.
[12] Dangosydd lles cenedlaethol 36.

## Defnydd o'r rhyngrwyd

Roedd gan **87%** o **gartrefi fynediad at y rhyngrwyd** yn y cartref. Gofynnwyd i bobl a oedden nhw'n **bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd** yn y cartref, yn y gwaith neu mewn man arall. Dywedodd **89%** o oedolion 16 oed a throsodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd. Mae hyn wedi cynyddu o 77% yn 2012-13.

Fel y dangosir yn Siart 8, roedd **95%** o ddefnyddwyr y rhyngrwyd wedi defnyddio **peiriant chwilio** (e.e. Google) yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, roedd **72%** wedi defnyddio **bancio arlein** ac roedd **43%** wedi defnyddio **sgwrs fideo** o ryw fath.

**Siart 8: Gweithgareddau a gyflawnir gan ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y tri mis diwethaf**



## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Cefndir

Cynhelir yr Arolwg Cenedlaethol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar gyfweliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Dewiswyd 24,762 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad a dewis un oedolyn ar hap (16 oed a throsodd) yn y cartref. Yna, cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb 45 munud, yn trafod amrywiaeth o safbwyntiau, ymddygiadau a nodweddion. Cwblhawyd cyfanswm o 11,922 o gyfweliadau, gyda chyfradd ymateb o 54.2%.

Mae rhagor o wybodaeth am y dull a ddefnyddiwyd ar gael yn yr adroddiad technegol.

### Dehongli'r canlyniadau

Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn y bwletin hwn ond yn seiliedig ar yr ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol. Dim ond i is-sampl o ymatebwyr y gofynnwyd cwestiynau ar rai pynciau yn yr arolwg, ac ni ofynnwyd cwestiynau eraill lle nad oedd y cwestiwn yn berthnasol. Mae'n bosibl na fydd pob cwestiwn yn cael ei ateb, a hynny am nifer o resymau, gan gynnwys amharodrwydd neu analluedd i ateb cwestiwn penodol.

Lle nodwyd cydberthynas rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu mai cydberthynas achosol ydyw. Mae angen dadansoddiad manylach er mwyn nodi a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall, neu a yw ffactorau eraill yn bwysicach mewn gwirionedd.

Mae'r canlyniadau'n cael eu pwysoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

### Adroddiad ansawdd

Mae Adroddiad ansawdd cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddir i lunio'r canlyniadau.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai pob ystadegyn swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol i ystadegau ar ôl asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried p'un a yw'r ystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os bydd gennym bryderon ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn ddi-oed. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol unrhyw bryd os na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a'i adfer pan gaiff safonau eu hadfer.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ein hystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus, a'n cyfrifoldeb ni yw i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau hyn. Cadarnhawyd y statws parhaus o'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol yn 2017 yn dilyn gwiriad cydymffurfiaeth gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau *[llythyr cadarnhau]*. Cynhaliwyd yr asesiad llawn diweddaraf o'r ystadegau [adroddiad llawn] hyn yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2013.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, ac rydym wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- darparu dadansoddiadau manylach yn y Dangosydd canlyniadau a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu canlyniadau ar draws blynyddoedd;
- diweddaru pynciau'r arolwg yn flynyddol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyfarfod anghenion polisi sy'n newid; a
- gwneud dadansoddiad atchweliad yn rhan safonol o'n hallbynnau i helpu defnyddwyr i ddeall cyfraniad ffactorau penodol at ganlyniadau buddiannau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith ar gyfer Cymru. Y nodau hyn yw cael Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, fwy cyfartal, fwy cyfrifol yn fyd-eang â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10) (1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth ar gyfer 15 o'r 46 o ddangosyddion, yr adroddir ar 11 ohonynt yma:

3 Canran yr oedolion, sy'n dangos llai na dau o'r ymddygiadau ffordd iach o fyw (peidio â smygu, pwysau iach, a bodloni'r canllawiau ar ffrwythau a llysiau, yfed a gweithgarwch corfforol).

19 Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol.

23 Y ganran sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.

24 Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/defnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

25 Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.

26 Y ganran sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw ynddo.

27 Y ganran sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.

29 Sgôr lles meddyliol gymedrig.

36 Y ganran sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol ac a all siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.

37 Y ganran o bobl a all siarad Cymraeg.

38 Y ganran sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith yr wythnos neu fwy.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y dangosyddion hyn ar gael fel data agored ar StatsCymru. Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratifau ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys un dangosydd cyd-destunol, sef 'y ganran o bobl a all siarad Cymraeg' y cyfeiriwyd ato yn y ddogfen dechnegol neu'r adroddiad Llesiant yn y ddolen flaenorol.

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael drwy:
https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru

## Diweddariad nesaf

Detholiad bach o ganlyniadau a gyflwynir yn y datganiad hwn. Bydd nifer o allbynnau manylach, yn benodol i bynciau, yn cael eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn.

## Rydym am gael eich adborth

Croesawn unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn: e-bost: arolygon@llyw.cymru

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir fel arall.

OGL